

# 22. Y Sêr Deithwyr

## CYMERIADAU

- ASAR – tywysog ifanc
- MELEDIA – athrawes y tywysog
- BRENIN
- BRENHINES
- WISAGIN – cynghorwr y brenin
- GWAS
- MORWYN 1
- MORWYN 2
- NEGESYDD
- ARGLWYDD Y SÊR

---

## GOLYGFA 1

Mae ASAR, y tywysog ifanc, yn edrych y tu hwnt i'r llwyfan. Mae MELEDIA, ei athrawes, yn eistedd wrth y bwrdd a'i llyfrau o'i chwmpas.

MELEDIA: Asar! Tyrd yn ôl at dy wersi. Pam wyt ti'n llygadrythu drwy'r ffenestr 'na?

ASAR: Ond mae'n noson mor braf! Pam mae'n rhaid i mi fod wrth fy ngwersi'r amser yma o'r nos?

MELEDIA: Oherwydd bod dy dad yn deud nad wyt ti'n gweithio'n ddigon caled yn ystod y dydd. Felly, mae'n rhaid i ti gael rhagor o wersi cyn mynd i'r gwely.

ASAR: Ond does dim rhaid i neb arall yn y palas ddysgu fel hyn gyda'r nos fel fi!

MELEDIA: A does 'na neb arall yn y palas yma ond ti yn mynd i fod yn frenin un diwrnod chwaith! Mae dy dad eisiau i ti dyfu i fyny i fod yn frenin cryf a doeth. Rhaid i ti weithio'n galed.

ASAR: [*Yn dod at ei athrawes*] Fe astudia i'n galetach os wnewch chi sôn wrtha i am y sêr.

MELEDIA: A pham yr holl ddiddordeb yn y sêr?

ASAR: Roeddwn i'n edrych arnyn nhw drwy'r ffenest funud yn ôl. Dwi'n eu gwyllo nhw bob nos! Be ydyn nhw, Meledia?

MELEDIA: Rwyd ti'n gwybod yn iawn be ydyn nhw. Planedau a heuliau mawr sydd filoedd ar filoedd ar filoedd o filltiroedd i ffwrdd. Maen nhw mor bell i ffwrdd fel mai dim ond pefriad bach gloyw welwn ni.

ASAR: Sêr ydy'r holl oleuadau disglair?

MELEDIA: Be arall allen nhw fod?

ASAR: Weithiau, dwi'n dychmygu mai cerbydau rhyfel ydyn nhw a bod rhyw frenin pwysig yn eu canol.

MELEDIA: Rwyf ti'n cael syniadau rhyfedd iawn o'r llyfrau darllen 'na sydd gen ti. Does dim brenhinoedd yn yr awyr, Asar! Dy dad ydy'r brenin mwyaf ar y ddaear. Mae ei deyrnas yn lledaenu dros gannoedd o filltiroedd. Paid â dychmygu fod yna frenin pwysicach na dy dad.

ASAR: Ond yn ein gwersi, rydach chi'n sôn am wledydd eraill – a brenhinoedd eraill hefyd!

MELEDIA: Ond dydyn nhw ddim mor bwysig â dy dad di. Brenhinoedd gwledydd bychain iawn ydyn nhw.

ASAR: Ond, tybed oes 'na frenhinoedd yn byw i fyny yng nghanol y cymylau?

MELEDIA: Mae rhai yn siarad am frenin galluog, duw sydd yn byw i fyny y tu hwnt i'r cymylau. Ond ni fyddai ganddo gerbyd rhyfel chwaith. Mae'r un yma yn uwch na dynion cyffredin – ac ni fydden nhw hyd yn oed yn ei weld. Wn i ddim a oes gwirionedd yn hyn ai peidio!

ASAR: Pan fydda i'n edrych ar y sêr, dwi'n meddwl eu bod nhw'n ceisio deud stori wrtha i am frenin cryf a phwysig. Felly, os nad cerbydau rhyfel ydyn nhw, mae'n rhaid eu bod wedi eu rhoi yna i ddisgleirio – yn union fel y mae'r gemau'n disgleirio ar goron fy nhad.

MELEDIA: Dwi ddim yn meddwl dy fod ti am weithio ryw lawer heno, Asar! Mae angen cwsg arnat ti – i glirio dy ymennydd o'r fath wiriondeb. Fe alwa i ar dy was.

*[Mae'n curo'i dwylo a daw GWAS ASAR i mewn]*

Mae ei Fawrhydi am fynd i'w wely rŵan, Mishda.

*[Mae'r GWAS yn ymgrymu ac yn mynd draw at ASAR]*

ASAR: Nos da, Meledia. Peidiwch ag anghofio be ddywedais i. Efallai 'mod i'n iawn!

*[Mae ASAR a'r GWAS yn mynd i'r ystafell wely. Mae MELEDIA'n aros yn yr un lle. Daw'r BRENIN i mewn. Mae MELEDIA'n moesymgrymu]*

MELEDIA: Noswaith dda, eich Mawrhydi. A ddaethoch chi yma i weld eich mab?

BRENIN: Naddo, naddo, Meledia. Rydw i wedi dod yma i gael gair efo chi.

*[Mae'n sefyll yn agos i'w chadair]*

Rwyf wedi crybwyll o'r blaen fy mod i'n pryderu dipyn ynglŷn â gwersi Asar. Tydi o ddim yn fachgen diog ond yn wir, mae ganddo rai syniadau rhyfedd iawn. Ac am ei freuddwydion ... wel ... mae o'n gwastraffu cymaint o'i amser.

MELEDIA: Mae plant yn breuddwydio – cofiwch mai dim ond deg oed ydy o.

- BRENIN: 'Sgwn i pwy sy'n ei drwytho gyda'r syniadau gwirion yma? Gobeithio'n wir nad chi sy'n gneud Meledia! Yn sicr tydw i na'i fam o'n euog, felly pwy arall allai fod yn gyfrifol?
- MELEDIA: Weithiau, fe fydda i'n gweld y tywysog yn siarad â Wisagin, eich cynghorwr.
- BRENIN: Wel, ie, rydw innau hefyd wedi'u gweld nhw'n sgwrsio â'i gilydd. Mae Wisagin yn wr clyfar, ffyddlon iawn ond mae o'n mynd yn hen. Cofiwch, mae o'n gynghorwr i mi ers nifer fawr o flynyddoedd. Ydach chi'n credu mai ef sy'n trwytho Asar efo'r syniadau od yma?
- MELEDIA: Cewch ofyn iddo heno. Fe fydd o'n darllen yn hwyr i'r nos. Pam nad ewch chi i'w weld o rŵan? Cewch gysgu'n dawel wedyn.
- BRENIN: Rydach chi'n un dda am roi cyngor, Meledia. Efallai y dylwn eich penodi'n gynghorwr newydd i mi!
- MELEDIA: Dim ond merch ydw i eich Mawrhydi, fy arglwydd. A tydw i ddim hanner mor ddoeth â Wisagin.
- BRENIN: Wel, nos da Meledia. Fe wnaaf fel y gwnaethoch ei awgrymu.

## GOLYGFA 2

Ystafell WISAGIN. Mae WISAGIN yn eistedd wrth ymyl y ffenestr yn astudio'r sêr. Mae llyfr mawr agored o'i flaen. Daw'r BRENIN i mewn.

- WISAGIN: [*Yn codi i gyfarch y BRENIN*]
- Noswaith dda, fy arglwydd. Croeso i chi, er ei bod hi'n hwyr y nos arnoch yn galw arna i.
- BRENIN: [*Mae'n eistedd wrth ymyl WISAGIN*]
- Eistedd i lawr, Wisagin. Rwy'n falch iawn o'r cyfle yma i siarad â thi. Mae yna rywbeth sy'n peri cryn boen i mi yn ddiweddar.
- WISAGIN: Does dim rhaid i chi boeni am yfory, o frenin. Rwy wedi astudio'r sêr, does dim perygl yn eich aros.
- BRENIN: Ond doeddwn i ddim yn poeni am fy niogelwch i. Na, poeni oeddwn i am gyflwr meddwl Asar.
- WISAGIN: Y tywysog! Does dim rhaid poeni amdano yntau chwaith. Mae o'n fachgen da, mae ganddo galon gynnes iawn.
- BRENIN: Na, mae gen i fy amheumon! Mae ganddo gymaint o syniadau rhyfedd. Maen nhw mor rhyfedd, fel mod i'n meddwl weithiau ei fod o'n ailadrodd yr hyn y mae'n ei glywed gan eraill ... neu rywun arall.

WISAGIN: Pa syniadau ydach chi'n feddwl?

BRENIN: Mae Asar yn un breuddwydiol iawn, iawn. Mae o wrth ei fodd yn gwau storïau. Ac yn ddiweddar, mae o wedi bod yn sôn am frenhinoedd yn yr awyr, a'r sêr yn gerbydau rhyfel. A'r hyn sy'n waeth, mae o fel petai'n credu'r storïau hyn.

WISAGIN: Ai dod yma i ofyn ai fi ydy'r un sy'n dylanwadu ar Asar wnaethoch chi?

BRENIN: Rwyt ti'n gallu darllen fy meddwl, Wisagin. Wyt, rwyt ti'n iawn.

WISAGIN: Na, nid fi oedd yr un a adroddodd y storïau hyn – ond yn hollol i'r gwrthwyneb – Asar ydy'r un a wnaeth eu hadrodd wrtha i!

BRENIN: Ond, ddywedaist ti wrtho fo dy fod ti'n credu'r fath ddwli?

WISAGIN: Mae plant yn fwy clyfar nag yr ydan ni'n sylweddoli. Maen nhw'n gallu gweld yr hyn sydd yn dywyll i ni.

BRENIN: [*Yn sefyll i fyny'n gas*] Yna – rwyt ti'n ei annog cyn belled ag y mae'r pensynnu yma yn y cwestiwn!

WISAGIN: Mi fydda i'n gwrando'n amyneddgar ar yr hyn fydd gan eich mab i'w ddeud wrtha i. Fydda i'n gneud dim mwy na hynny.

BRENIN: Does 'na ond un peth ar ôl – rhaid gofyn i Asar o le mae'r celwyddau hyn yn dod.

WISAGIN: Ydach chi'n siŵr mai celwyddau ydyn nhw?

BRENIN: Dim ond celwyddau fyddai'n cadw fy mab mewn byd o hud a lledrith!

WISAGIN: Weithiau bydd plant yn gweld goleuni sydd y tu hwnt i ni oedolion.

BRENIN: Alla i ddim gwrando ar dy ddamcaniaethu ffôl dim mwy Wisagin. Ar un adeg, roeddet ti'n un doeth iawn – ond rŵan rwy'n credu mai hen ffŵl wyt ti!

WISAGIN: [*Yn sefyll wrth i'r BRENIN adael yr ystafell*] Noswaith dda, fy arglwydd.

[*Mae'r BRENIN yn mynd allan. Mae WISAGIN yn rhoi ei ben yn ei ddwylo ac yn myfyrio'n ddwys. Heb yn wybod iddo, mae ASAR yn dod i mewn i'r ystafell yn ddistaw bach*]

ASAR: [*Yn mynd yn agos at WISAGIN*]

Bw! Dyna fi wedi'ch dal!

WISAGIN: [*Wedi cael ofn*] Y tywysog! Be ydach chi'n ei wneud yma? A welodd eich tad chi?

- ASAR: Naddo, fe wnes ei ddilyn yma ond fe guddiais wedyn. Mae o wedi bod yn siarad â Meledia hefyd a phan roddodd Mishda fi yn fy ngwely, dyma fi'n esgus fy mod i'n cysgu. Ond pan ddaeth fy nhad yma, cerddais ar ei ôl yn dawel. Fe glywais be ddeudodd o wrthach chi hefyd.
- WISAGIN: Mae o yn fy meio i am eich bwydo efo syniadau rhyfedd, syniadau ffug.
- ASAR: Ond tydw i ddim yn meddwl eu bod nhw'n ffug. Rydach chi'n gwybod am y sêr, Wisagin. Rydach wedi bod yn eu hastudio ers blynyddoedd. Oes 'na ryw ddirgelwch ynglŷn â nhw?
- WISAGIN: Petawn i'n deud wrthach chi'r hyn sydd yn fy meddwl, yna byddai'r brenin yn iawn i'm hamau.
- ASAR: Ond mi ydw i eisiau gwybod be sydd ar eich meddwl Wisagin.
- WISAGIN: Yna, dewch draw yma at y ffenestr. [*Mae'r ddau'n sefyll gyda'i gilydd yn edrych i fyny tua'r sêr*]
- Sêr cyffredin ydy'r rhan fwyaf o'r sêr a welwn ni nawr. Maen nhw'n amgylchynu'r ffurfafen trwy gydol eu bywyd, wedyn, byddan nhw'n edwino a gorffen eu hoes ar ôl miloedd ar filoedd o flynyddoedd. Ond tydi'r rhan fwyaf o'r goleuadau disglair yn y ffurfafen ddim yr hyn a dybiwn ni. Gellir deud mewn ffordd mai cerbydau rhyfel ydyn nhw. A bod y Teithiwr Mawr ei hun yn teithio ar hyd y Llwybr Llaethog. Dim brenin ydy o, ond gwas i'r brenin, a fo sy'n gofalu am y sêr a'r planedau. Bob hanner can mlynedd, mae modd gweld ei gerbyd yn y ffurfafen. Unwaith yn unig dwi wedi'i weld, pan oeddwn dipyn yn hŷn nag ydach chi yn awr. Cofiwch fod hynny wedi digwydd hanner can mlynedd yn ôl bellach.
- ASAR: Felly, ydach chi'n deud y bydd i'w weld eto cyn bo hir?
- WISAGIN: Bydd, ymhen 'chydig ddyddiau. Welwch chi'r llyfr mawr 'na sydd ar y bwrdd? Rydw i wedi bod yn ceisio dyfalu, gyda chymorth y llyfr, pa bryd y bydd yn ymddangos nesaf yn y ffurfafen. Rydw i wedi canfod y bydd i'w weld ymhen tair noson – a hynny o ben Bryn y Brenin.
- ASAR: Bryn y Brenin? Y man lle mae fy nghyndeidiau wedi'u claddu?
- WISAGIN: Ie, eich taid a'r holl frenhinoedd a fu'n teyrnasu'r wlad hon o'i flaen. Eich taid oedd y brenin hanner can mlynedd yn ôl – pan welais i'r cerbyd sêr yn y ffurfafen.
- ASAR: Ddigwyddodd rhywbeth? ... Welsoch chi rywbeth heblaw'r seren?
- WISAGIN: Roedd hynny mor bell yn ôl a minnau'n ifanc. Ond mae gen i frith go o noson dywyll, wyntog a'r llais rhyfedd yn siarad â mi o berfeddion du'r nos.
- ASAR: Be ddeudodd y llais wrthych chi?

WISAGIN: Deud mai fi fysa cynghorwr y brenin y tro nesaf y byddai'r seren ar ei thaith, a hefyd, y byddai dewis pwysig gen i i'w wneud.

ASAR: Be ydach chi'n ei feddwl fydd y dewis Wisagin?

WISAGIN: A ddylwn i fynd â chi gyda mi ymhen tair noson i ben Bryn y Brenin ai peidio!

### GOLYGFA 3

Mae'n fore yn y palas. Mae'r FRENHINES yn cerdded gyda'i MORYNION.

BRENNINES: O, roedd hi mor boeth y bore 'ma. Neithiwr, roedd hi'n oer – mor oer, roeddwn i'n teimlo fel petai rywun wedi rhoi talp o rew ar fy nhalcen i!

MORWYN 1: Ydy, mae'n oer yn ystod y nos madam. A'r amser hynny, fe fydda i'n gweld y sêr yn pefrio 'run fath yn union â diemwntau'n sbecian arnon ni o'r nefoedd.

MORWYN 2: Efallai bod storïau'r tywysog yn rhai gwir. Efallai bod teithwyr yn y ffurfafen yn cadw llygad arnon ni.

BRENNINES: Mae o wedi bod yn un rhyfedd iawn yn ddiweddar. Mae'r brenin yn boenus iawn am y peth.

[*Daw'r BRENNIN i mewn*]

BRENNIN: [*Wrth y FRENHINES*] Bore da, nghariad i. Ydach chi wedi clywed y newyddion?

BRENNINES: Pa newyddion, fy arglwydd?

BRENNIN: Mae negesydd wedi teithio yma drwy'r nos o wlad gyfagos i ddeud fod milwyr rhyfel yn ymgynnull.

BRENNINES: Be ydy arwyddocâd hynny? I ble fydd y milwyr yn mynd?

BRENNIN: Gofynnwch i'r negesydd eich hun. Mae o wedi cael cwpwl o oriau o seibiant ac amser i gael pryd o fwyd. Fe ddaw yma ymhen 'chydig i gael sgwrs gyda ni.

[*Daw'r NEGESYDD i mewn*]

[*Wrth y NEGESYDD*] Dwi'n gobeithio dy fod ti'n teimlo rywfaint yn well erbyn hyn – digon i ddeud dy neges bwysig wrth y frenhines.

NEGESYDD: Ydw. [*Mae'n siarad â'r FRENHINES*] Madam, newyddion sydd gen i am frwydro yn agos i ffin y wlad hon. Mae'r Brenin Farduk, sydd i fod yn gymydog i ni, wedi casglu byddin fawr o filwyr. Maen nhw'n ymdeithio tuag yma yr eiliad hwn!

BRENNINES: Ond be ydy'i fwriad?

NEGESYDD: Bu Farduk yn genfigennus iawn o'ch gŵr erioed! Nid yn unig mae o wedi casglu ei filwyr ei hun at ei gilydd, ond mae o hefyd wedi gwahodd brenhinoedd eraill a'u byddinoedd i ymuno ag ef.

BRENNINES: Ydy'r Brenin Farduk yn gwybod dy fod ti'n gwybod am ei drefniadau?

NEGESYDD: Na, tydw i ddim yn meddwl! Gadewais neithiwr unwaith y clywais am ei drefniadau cyfrwys. Teithiais yma drwy'r nos i ddeud wrthoch chi am yr hyn sy'n digwydd.

BRENIN: Rwyt ti'n was ffyddlon iawn. Mae'n rhaid i ni baratoi i wynebu'r gelyn.

NEGESYDD: Ond, digwyddodd rhywbeth rhyfedd wrth i mi farchogaeth yma, eich Mawrhydi. Roedd hi'n noson oer a thywyll iawn, ond yn sydyn, daeth seren ddisglair iawn i'r ffurfafen. Roedd hi mor ddisglair, bu'n rhaid i mi guddio fy llygaid. Pylodd y disgleirdeb ond roedd y seren fel petai hi'n cyd-gerdded gyda mi, neu yn fy nilyn. Roedd y tywydd yn gynnes a mwyn tra oedd y seren uwch fy mhen i. Yna, diflannodd tua'r gorwel a dyna'r olaf welais ohoni.

BRENNINES: Seren ryfedd yn dilyn marchog unig!

BRENIN: Efallai mai llusern rhyw fugeiliaid i fyny ar ochr y bryniau oedd hi.

NEGESYDD: Na, fy arglwydd, roeddwn i ar lawr y dyffryn gwastad pan welais i hi.

BRENIN: Wel, alla i ddim meddwl be oedd hi! Tyrd efo fi i ni gael trefnu ein tactegau i ymladd y fyddin hon sy'n ein bygwth.

*[Mae'r BRENNIN a'r NEGESYDD yn gadael y llwyfan]*

BRENNINES: *[Wrth y morynion]* Be ydach chi'n ei feddwl o stori'r negesydd?

MORWYN 1: Alla i ddim deall y peth. Ai seren oedd hi?

MORWYN 2: Tydi sêr ddim yn mynd a dod siŵr! Roedd hyn yn wyrth!

BRENNINES: Beth bynnag oedd hi – gobeithio ei bod hi'n darogan llwyddiant i ni. Gadewch i ninnau fynd i mewn, ferched.

## GOLYGFA 4

Bryn y Brenin, tua hanner nos. WISAGIN ac ASAR yn dod i'r llwyfan.

ASAR: O, mae hi mor oer yma ar ben Bryn y Brenin. Rydw i'n falch iawn eich bod chi gyda mi, Wisagin. Faswn i ddim yn hoffi bod yma ar fy mhen fy hun yng nghanol yr holl feddau 'ma!

WISAGIN: Eich cyndadau sy'n gorwedd yma, Asar, does dim byw i'w ofni yma. Ond fe ddylwn i ofni eich tad. Petai'n gwybod eich bod chi yma gyda mi ar Fryn y Brenin ym mherfeddion y nos, yna fyddwn i ddim yn gynghorwr iddo mwyach!

ASAR: Na, peidiwch â phoeni – mae ’nhad yn brysur iawn y dyddiau hyn. Mae o wedi cael gwybod am filwyr sy’n crynhoi ger ffin ein gwlad. Mae o a’i gadlywyddion yn brysur iawn.

WISAGIN: Alla i ddim penderfynu a ydw i’n iawn ai peidio. Be os ydy fy nghynlluniau i’n anghywir? Fe gawn ni wybod hynny’n fuan iawn, rwy’n siŵr.

ASAR: Ydach chi’n credu y bydd y cerbyd yn hedfan yn isel?

WISAGIN: Sut fedra i ddeud? Rydw i ... [*Mae’n aros am eiliad ac yn edrych i’r dde*] Ai fflach o olau oedd hwnna? Welsoch chi olau?

ASAR: Na, fe ddigwyddodd o’n rhy sydyn i mi weld, beth bynnag oedd o! Be ydach chi’n meddwl oedd o, Wisagin?

WISAGIN: Wel, roedd o’n rhywbeth isel ar ochr y brynau. Yn rhy isel efallai i fod yr hyn yr ydan ni’n ei ddisgwyl. Efallai mai golau llusernau’r milwyr sy’n agosáu at y ddinas oedd yno. Gwell i ni fynd i archwilio ... rhag ofn ...

ARGLWYDD

Y SÊR: Paratowch i gyfarfod yr un sy’n teithio’r Llwybr Llaethog. Paratowch i gyfarfod Arglwydd y Sêr!  
[*Daw ARGLWYDD Y SÊR i’r llwyfan. Mae ganddo wisg arbennig iawn. Daw draw at WISAGIN ac ASAR*]

Rwyt ti, Wisagin, o bosib, wedi anghofio ein cyfarfod cyntaf. Fe wela i lawer o newid ynot ti, ond weli di ddim llawer o newid ynof i.

WISAGIN: [*Yn codi ei ben*] Rydw i’n cofio, rydw i’n cofio! Sut all dyn anghofio gweld yr haul yn codi neu weld y lleuad yn taflu tawch ariannaidd dros frig y fforestydd? Mae’r cof yn iach o hyd er fy mod wedi cadw hyn yng nghefn fy meddwl.

ARGLWYDD

Y SÊR: Fe roddais i dasg i ti ar ein cyfarfyddiad cyntaf, Wisagin – ac fe gedwaist ti at dy air. A hwn ydy’r tywysog ifanc, Asar. Cod dy ben, fy nhywysog bach.

ASAR: [*Yn edrych ar ARGLWYDD Y SÊR mewn syndod*] Dyna chi felly, doedd fy syniadau i ddim yn rhai ffug wedi’r cwbl. Roeddwn i wedi dychmygu sut un fyddai Arglwydd y Sêr, a dyma’r union un yn sefyll o ’mlaen i.

ARGLWYDD

Y SÊR: Allwch chi ddim dychmygu sut un ydy’r brenin rwyf yn ei wasanaethu. Mae ei fawredd y tu hwnt i amgyffred dyn. All y llygad noeth mo’i weld ond mae’r croen yn teimlo rhyw gryndod iasoer yn ei bresenoldeb.

ASAR: Ond, ai chi ydy’r brenin?

ARGLWYDD

Y SÊR: Nage, fi fydd yn gwasgaru arwyddion o’i ysblander o gwmpas y bydysawd.



WISAGIN: Daethon ni yma ar boen ein bywyd. Byddai tad y tywysog yn ein cosbi pe bysai'n gwybod ein bod yma yn eich cwmni.

ARGLWYDD

Y SÊR: Mae'r brenin yn rheolwr doeth iawn. Ond cyfyng iawn ydy ei syniadau ar brydiau. Dydy o ddim yn gweld y gwirionedd yn llygad ei fab, nac ar wyneb addfwyn ei gynghorwr.

ASAR: Ydy, mae 'nhad yn frenin doeth, mae'n rheoli'n gyfiawn ac mae'r bobl yn ei garu.

ARGLWYDD

Y SÊR: Does dim rhaid i ti amddiffyn dy dad yn fy ngŵydd i. Rydw i'n gwybod ei werth. A dyna pam rydw i yma i achub ei deyrnas. Mae byddinoedd y gelyn yn agos iawn erbyn hyn, a gall yr oriau nesaf fod yn rhai tyngedfennol iawn!

WISAGIN: Ond be allwn ni ei wneud – ar wahân i fynd i ymuno â'r brenin a'i bobl?

ARGLWYDD

Y SÊR: Os arhoswch chi yma, fe ddangosa i i chi sut y gallwch fod o ddefnydd. Ydych chi'n cofio'r cerbyd a arweiniodd negesydd y brenin ato gyda'r newyddion am y gelyn? Wel, fe all yr union gerbyd hwnnw fod o fudd unwaith eto ...

WISAGIN: Pam ydach chi'n fodlon ein helpu fel hyn?

ARGLWYDD

Y SÊR: Does dim daioni mewn rhyfel. Dim ond dwy wlad sy'n byw gyda'i gilydd yn gytûn sy'n gallu meithrin amynedd a heddwch parhaol. Weithiau, gall un dyn ddysgu'r gwirionedd i genedl gyfan, ac i sawl cenedl. Gwelaf rai o'm blaen yn awr. Asar, byddi di'n athro mawr ryw ddydd. Bydd gennyt nerth dy dad a doethineb Wisagin. Ond cyn hynny, bydd rhaid i ti fynd ar daith.

ASAR: I ble?

ARGLWYDD

Y SÊR: I ble bynnag yr â fy ngherbyd i!

ASAR: Ond bydd hanner can mlynedd wedi mynd heibio cyn i chi ddod yma eto.

ARGLWYDD

Y SÊR: Mae hynny'n wir. Pan ddof yma eto, byddi'n hen ŵr. Bydd y blynyddoedd wedi gadael ôl doethineb arnat a bydd parch mawr i ti. Ond cyn diwedd dy fywyd, byddi'n mynd ar daith bwysicaf dy fywyd. A bydd yr hyn a ddysgi yn ystod y daith yn dod â gobraith a heddwch i'th bobl, a hefyd i frodorion y gwledydd cyfagos. Ac yn bwysicach na dim, byddi'n dod o hyd i'r brenin rwy'ti wedi breuddwydio amdano.

ASAR: Oes raid i mi eich dilyn i fyny i entrychion y nefoedd hefyd?

ARGLWYDD

Y SÊR:

Na, fel y bydd fy ngerbyd yn cyffwrdd pen y bryniau gan wneud i'r rheiny loywi'n goch gynnes, felly hefyd y daw'r Brenin Mawr ei hun i'r byd – ond nid pen y bryniau fydd yn gloywi bryd hynny, ond llethrau bryniau'r byd fydd yn tanio hyd dragwyddoldeb.

ASAR:

Tydw i ddim yn deall popeth yr ydych yn ei ddeud ond fe faswn wrth fy modd petawn i'n cael gweld y brenin hwn y mae'r ddau ohonoch yn sôn amdano.

ARGLWYDD

Y SÊR:

Bydd y brenin yn cymryd mantell baban ifanc mewn preseb, a phan fyddi di'n hen ŵr, byddi'n cael y cyfle i'w weld. Ti, Asar, fydd ei negesydd yn y gwledydd hyn.

ASAR:

Ond sut fydda i'n ei adnabod?

ARGLWYDD

Y SÊR:

Rhaid i ti edrych am faban bychan mewn preseb, ac uwchben man ei eni, bydd fy ngerbyd i'n hofran, a bydd arglwyddi'r byd yn canu ei glod.

WISAGIN:

Y mae'n loes calon i mi na fydda i yna efo chi, Asar.

ARGLWYDD

Y SÊR:

Tydi'r brenin ddim yn cuddio'i hun oddi wrth y rhai sy'n chwilio amdano. Mae dy lyfrau a'th astudiaethau doeth wedi dod â thi yma, Wisagin. Ni fu dy fywyd yn wastraff. Ac yn awr, rhaid i'r ddau ohonoch brysuero yn ôl tua'r ddinas. Fy nhasg i fydd setlo ffawd byddinoedd y gelyn. Fe gawn ni'n dau gyfarfod eto Asar – pan ddaw fy Seren-Gerbyd unwaith eto ar draws y ffurfafen.

ASAR:

'Drychwch! Rydw i'n medru gweld y Seren-Gerbyd y tro yma. 'Drychwch arno'n hedfan i ffwrdd fel aderyn euraidd!

WISAGIN:

[*Yn arwain ASAR oddi ar y llwyfan*] Dewch, Asar! Mae'n rhaid i ni baratoi ein hunain – mae bore cythryblus o'n blaen!

## GOLYGFA 5

Ystafell ddosbarth ASAR. Mae MELEDIA yn eistedd wrth y bwrdd – Asar fel arfer yn edrych drwy'r ffenestr yn synfyfyriol iawn.

MELEDIA:

Rwyt ti'n synfyfyrio eto, Asar! Be ar y ddaear sydd yna rŵan sy'n dal dy sylw di?

ASAR:

Milwyr Meledia! Maen nhw'n amgylchynu muriau'r ddinas. Rydw i'n gweld eu harfau'n sgleinio yng ngolau'r haul. 'Drychwch, Meledia, mae pyrth y ddinas yn agor. Mae 'nhad yn y cyntedd.

MELEDIA:

[*Yn mynd at y ffenestr*] Pwy ydy'r un sy'n marchogaeth i mewn ar frys? O, y negesydd ydy o – yr un a ddaeth â'r newyddion bod byddinoedd y gelyn yn ymgasglu.

ASAR: O, mae o'n siarad efo 'nhad. Gadewch i ni fynd lawr i'r cyntedd er mwyn i ni gael gwybod be sy'n digwydd, Meledia!

MELEDIA: Amynedd, amynedd, Asar! Rhaid i'r gwersi ddod yn gyntaf – rhaid i ti anghofio'r hyn sy'n digwydd y tu allan!

ASAR: Mae 'nhad yn dod yn ei ôl i'r palas. O, plis Meledia – gawn ni fynd i lawr atyn nhw?

MELEDIA: Wel, wn i ddim, Asar ... be ddywed y brenin ... O!

[Mae MELEDIA'n sylwi bod y FRENHINES a'i MORYNION wedi dod i mewn]

BRENNHINES: Bore da, Meledia. Tydw i ddim yn amharu ar wersi fy mab fel arfer ond y brenin sydd wedi fy anfon i yma. Fe hoffai'r brenin petaech yn dod i lawr i'r cyntedd i rannu'r newyddion da gyda ni.

ASAR: Mae byddinoedd y gelyn yn dychwelyd i'w gwledydd eu hunain.

BRENNHINES: Wel, Asar bach ... beth bynnag ....

ASAR: Ac ma 'na sibrydion fod peli mawr o dân wedi syrthio ar eu gwerysll a bod milwyr wedi ffoi fel criw o gŵn gwyllt.

BRENNHINES: Sut yn y byd ... doedd llais y negesydd 'rïoed yn cario mor bell â hyn! ...

MELEDIA: Ai dyna sut y digwyddodd yr helynt, fel y deudodd Asar?

BRENNHINES: Mae gan fy mab glustiau main iawn. Ie'n wir, dyna'n union oedd y neges.

MELEDIA: Yna, mae'n rhaid i ni fynd i lawr i'r cyntedd yn ôl gorchymyn y brenin.

ASAR: Ond wnawn ni ddim aros yna'n rhy hir, Meledia, o hyn ymlaen, bydd yn rhaid i ni ganolbwyntio ar fy ngwersi. Mae 'na gymaint o bethau y dylwn i wybod amdany'n nhw – ieithoedd, hanes. Ac mae awydd mawr arna i deithio a gweld gwledydd eraill y byd. Felly, Meledia – rhaid i mi weithio'n galed o hyn ymlaen.

MELEDIA: Dyna un rhyfedd wyt ti, Asar! Rwy'ti'n fy synnu i!

BRENNHINES: Gwrandewch ar y bobl tu allan. Mae newyddion yn lledaenu fel tân gwyllt! Dwi'n meddwl y byddai'n well i mi dy esgusodi di heddiw, Asar! Fedri di ddim canolbwyntio ar dy waith yng nghanol yr holl fwrlwm yma.

ASAR: Ydy Wisagin yn gwybod beth sydd wedi digwydd?

BRENNHINES: O, ydy! Fe fydd o lawr yn y cyntedd hefyd erbyn hyn. Dewch, bawb!

[Maen nhw'n mynd allan gyda'i gilydd]

**DIWEDD**